

Gweithgaredd cartŵn Arwyr y Tywydd

Yn y gweithgaredd hwn, byddwch yn edrych ar stori go iawn am bobl sy'n gweithio mewn gyrfaoedd yn y tywydd a hinsawdd, cyn cynllunio a gwneud eich stori eich hun! Byddwch yn meddwl am sut i ddefnyddio sgiliau adrodd stori, creadigrwydd ac ymchwil i ddod â swyddi cyffrous yn y tywydd a hinsawdd yn fyw.

Rhan 1: Cael eich ysbrydoli gan stori Sophie


(Os ydych eisoes wedi edrych ar y cartŵn gyda'ch athro, neidiwch i 'Rhan 2: Her Adrodd Stori', neu efallai yr hoffech ddefnyddio'r camau hyn beth bynnag fel modd o loywi).

1. Darllenwch y cartŵn 'Arwyr y Tywydd', sy'n dilyn Sophie ar ddiwrnod cyffrous yn ei swydd fel peiriannydd gwasanaethau maes. Wrth i chi ddarllen, cylchwch

unrhyw eiriau neu ymadroddion nad ydych chi'n eu deall - gallai'r rhain ymwneud â swyddi sy'n codi, neu derminoleg dechnegol.

2. Defnyddiwch yr eirfa isod i edrych am y termau anoddach hynny. Os oes rhai o'r geiriau/ymadroddion y gwnaethoch eu cylchu neu eu hysgrifennu ddim ar y rhestr, ymchwiliwch i'r rhain ar-lein ac ysgrifennwch y diffiniadau.

Prentisiaeth



Cyfle am waith cyflogedig sy'n eich galluogi i hyfforddi a symud ymlaen tuag at gymhwyster wrth weithio.


Pont



Ffrâm wedi'i gwneud o sgaffaldiau sy'n caniatáu i beirianwyr weithio'n ddiogel ar uchder o fewn radom.

Gweithgaredd cartŵn Arwyr y Tywydd

Cod



Trefniant o reolau neu gyfarwyddiadau sy'n dweud wrth gyfrifiadur am gyflawni gwahanol dasgau.

Data



Casgliad o fesuriadau sy'n cael eu casglu trwy arsylwi, ac yna gellir eu trosi'n wybodaeth fel testun neu ddelweddau.

Peiriannydd gwasanaethau maes



Peirianwyr sy'n gyfrifol am gynnal a thrwsio radar. Gall hefyd gynnwys adeiladu a phrofi systemau arsylwi ar y tywydd neu'n paratoi offer i'w gosod.

Meteorolegwr



Pobl sy'n edrych ar ddata ac yn eu defnyddio i ragweld y tywydd, gan helpu pobl i gadw'n ddiogel.

Gweithgaredd cartŵn Arwyr y Tywydd

Dyddodiad



Dŵr sy'n cwmpo o'r awyr, gallai hyn fod yn law, glaw mân, eira, eirlaw, neu genllysg.

Radom



Strwythur mawr sy'n amgylchynu'r radar i'w amddiffyn rhag difrod. Mae'n ymddangos fel pêl golff enfawr!

Peiriannydd meddalwedd radar



Peiriannydd sy'n gyfrifol am ddefnyddio rhaglennu a chod i wella'r feddalwedd sy'n rhedeg yn y safleoedd radar tywydd. Mae'r feddalwedd hon yn rheoli popeth y mae'r radar yn ei wneud - er enghraifft, pa mor gyflym mae'r ddysgl yn troelli, pa amledd y mae'n ei drosglwyddo ac am faint o amser.

Derbynnydd



Dyfais yn y radar sy'n 'gwrando' ar yr atseiniau a drosglwyddir yn ôl i'r radar i gipio data tywydd pwysig.

Gweithgaredd cartŵn Arwyr y Tywydd

Storm eira



Cwmp trwm iawn o eira sy'n cael ei chwythu gan wyntoedd cryfion am gyfnod hir. Gall gynnwys eira, eirlaw, rhew a glaw rhewllyd.

Rheolwr arsylwadau awyr uchaf



Rhywun sy'n gyfrifol am oruchwylio rhedeg radar tywydd. Mae'r rôl yn cynnwys defnyddio meddalwedd, cynllunio ymweliadau a siarad â'r bobl iawn i fonitro'r radar a sicrhau eu bod yn gweithio.

Radar tywydd



Dyfais sy'n anfon pwls electromagnetig sydd yn canfod gwrthrychau yn yr awyr, megis diferion glaw, ac yn gallu dweud pa mor fawr ydyn nhw, ble maen nhw'n teithio a pha mor gyflym maen nhw'n cwmpo.

Gweithgaredd cartŵn Arwyr y Tywydd

Rhan 2: Her Adrodd Stori

Nawr mae'n bryd meddwl am eich cartŵn Arwyr y Tywydd eich hun! Gan ddefnyddio stori Sophie fel ysbrydoliaeth, bydd angen iddi roi golwg gyffrous i ddarllenwyr ar 'ddiwrnod ym mywyd' pobl sy'n gweithio yn y tywydd a hinsawdd. Bydd angen i chi wneud ymchwil i sicrhau bod eich stori yn gynrychiolaeth gywir o'r swyddi hynny. Bydd angen i chi hefyd ddefnyddio'ch dawn greadigol a'ch llygad am stori dda!

A allai'ch stori hyd yn oed fod yn barhad o'r cartŵn rydych newydd ei ddarllen? Yn yr achos hwnnw, pa gymeriadau, digwyddiadau a sefyllfaoedd newydd y gallech eu cyflwyno?

Y cam pwysig cyntaf yw cynllunio'ch stori.

Y cefndir

Rhan bwysig iawn o'r stori hon fydd y gyrfaoedd a'r bobl y tu ôl iddynt. Beth am ddechrau trwy ymchwilio i rai swyddi yn y tywydd a hinsawdd, i benderfynu pa rai fydd yn ymddangos yn eich stori? Efallai y bydd y dolenni canlynol yn eich helpu chi:

- icould.com
- prospects.ac.uk
- metoffice.gov.uk/about-us/careers/your-career

Efallai y byddwch hefyd am feddwl am y wybodaeth ffeithiol yr hoffech ei hamlygu yn eich stori e.e. technolegau, terminoleg wyddonol ac ati. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod eich stori wedi'i seilio ar dystiolaeth go iawn?

Y cymeriadau:

- Pwy yw eich prif gymeriad (prif gymeriad neu arwr eich stori)?
- Pwy fydd y cymeriadau eraill yn y stori - beth yw eu perthynas â'r prif gymeriad?
- Sut olwg fydd arnyn nhw, ble fyddan nhw'n byw, beth fydd eu hól-stori?
- Pa rinweddau a sgiliau personol fydd ganddyn nhw?

Y cynllun:

Am beth fydd eich cartŵn? Penderfynwch beth fydd yn digwydd ar y dechrau, y canol a'r diwedd i gynllunio'ch stori.

Gweithgaredd cartŵn Arwyr y Tywydd

Dechrau

Gosodwch yr olygfa a chyflwynwch eich cymeriadau; efallai y byddwch hefyd am gyflwyno ôl-stori e.e. mewn ffordd debyg i sut y gwnaeth stori Sophie edrych ar ei thaith tuag at ddod yn beiriannydd, archwilio ei diddordebau fel plentyn, yr hyfforddiant a wnaeth ac ati.

Canol

Pa ddigwyddiadau neu heriau mawr y bydd eich cymeriadau yn eu hwynebu? Sut y byddwch chi'n clymu hyn yn ôl i'r tywydd a hinsawdd? E.e. digwyddiad tywydd eithafol, trychineb neu broblem sy'n codi yn niwrnod gwaith y prif gymeriad...

Diwedd

Beth fydd yr ateb i her neu ddigwyddiad mawr y stori? Gallech hyd yn oed gynnwys tro annisgwyl!

Gweithgaredd cartŵn Arwyr y Tywydd

Nawr eich bod wedi gwneud yr ymchwil a'r cynllunio, rydych yn barod i greu eich cartŵn! Defnyddiwch y templed isod neu ei eich deunyddiau eich hun.

Os yw'n well gennych, gallech hyd yn oed ofyn i'ch athro neu oedolyn arall am adrodd eich stori mewn ffordd wahanol e.e. ffilm, stori ysgrifenedig, podlediad, cerdd...

Efallai yr hoffech hyd yn oed feddwl am bwrpas neu gynulleidfa ar gyfer eich gwaith - ai ysbrydoli pobl ifanc eraill fel chi i ddechrau mewn gyrfaoedd tywydd yw'r bwriad? Ai hysbysu pobl sydd eisoes yn gweithio ynghylch y gwahanol swyddi y gallent eu harchwilio os ydynt yn ystyried newid gyrfa?

Mae'r bwrdd stori yn parhau tros y ddalen os bydd angen

Gweithgaredd cartŵn Arwyr y Tywydd
